Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad:

# Dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Estyn ar drefniadau arolygu ar gyfer sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 o fis Medi 2024

## Rhagfyr 2023

# Tabl Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 1
2. Methodoleg ..... 1
3. Proffil yr ymatebwyr ..... 1
4. Canlyniadau ..... 4
   4.1 Ymatebion i Gynigion ..... 4
   4.2 Effeithiau'r cynigion ..... 25
5. Y camau nesaf ..... 26

# Ymatebion i ymgynghoriad Estyn ar drefniadau arolygu ar gyfer sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 o fis Medi 2024

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r Ymatebion i drefniadau arolygu Estyn ar gyfer sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 o fis Medi 2024

## 2. Methodoleg


Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w lenwi naill ai ar-lein neu all-lein (dogfen PDF i'w llenwi a'i dychwelyd drwy'r e-bost neu drwy'r post). Lansiom yr arolwg ar 29 Medi 2023 ac fe gaeodd ar 30 Tachwedd 2023.

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau testun rhydd eu grwpio'n themâu. Mae ymatebion cyffredin wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn i gyfleu'r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â phob cwestiwn – er, mae niferoedd yr ymatebion testun rhydd yn nodweddiadol isel ac nid ydynt o reidrwydd yn gynrychiolaidd o'r boblogaeth gyfan. Fe wnaeth y rhain gynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle y cafodd elfennau o nifer o ymatebion eu crynhoi). Dilynwyd Arweiniad Ysgrifennu Estyn wrth ddisgrifio cyfrannau'r ymatebion (e.e. mae 'ychydig' yn cyfateb i lai nag 20% o ymatebwyr).

## 3. Proffil yr ymatebwyr

Cawsom gyfanswm o 64 ymateb i holiadur yr ymgynghoriad. O'r ymatebwyr hyn, ni chofnododd un ohonynt ymatebion i unrhyw gwestiynau. Darparodd bron bob un o'r ymatebwyr (ymhell dros 90% ohonynt) ymatebion i'r holl 'gwestiynau dewislen' (h.y. y cwestiynau â set o atebion wedi'u diffinio ymlaen llaw). Roedd nifer yr ymatebion i gwestiynau testun rhydd unigol yn amrywio o 7 i 47 (h.y. 11% i 70% o ymatebwyr). Bydd y cyfraddau ymateb penodol yn cael eu cynnwys wrth drafod cwestiynau unigol trwy gydol yr adroddiad.


**Ffigur 1: Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.**




O'r 19% a ymatebodd 'arall', rhannwyd hyn yn agos i 50/50 rhwng Penaethiaid Adran a Rheolwyr Canol.

Hefyd, gofynnom i ymatebwyr pa sector yr oeddent yn ei gynrychioli.

**Ffigur 2: Pa sector(au) ydych chi’n ei gynrychioli/eu cynrychioli? Dewiswch yr holl opsiynau perthnasol.**




Ni chafwyd ymatebion gan unigolion yn cynrychioli’r sectorau addysg carchardai na chyfiawnder ieuenctid. Nid oeddem yn disgwyl ymatebion o’r sectorau hyn gan y byddwn yn ymgynghori ar wahân ar y trefniadau ar gyfer dysgu yn y sector cyfiawnder yn nes ymlaen yn 2024.


Daeth llawer o’r ymatebion a gafwyd oddi wrth unigolion a oedd yn cynrychioli colegau addysg bellach. Dim ond 4.8% o ymatebion a gafwyd gan unigolion yn cynrychioli’r sector colegau arbenigol annibynnol. Lle y mae cwestiynau yn nes ymlaen yn yr arolwg yn gofyn am ymatebion penodol ynghylch y sector hwn, mae’r ymatebion yn adlewyrchu dealltwriaeth gyfyngedig o’r sector hwn.

## 4. Canlyniadau

### 4.1 Ymatebion i Gynigion

Yn gyntaf, gofynnom i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig bod nifer y meysydd sy'n cael eu hystyried yn ystod arolygiadau yn cael eu newid o bump i dri.

**Ffigur 3: Rydym yn cynnig ein bod yn newid nifer y meysydd arolygu yr ydym yn eu hystyried yn ystod arolygiadau o bump i dri.**





Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda thros 90% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 6% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 37 o 64 (58%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Roedd y 'thema' gryfaf o lawer yn yr ymatebion testun rhydd yn gysylltiedig â'r gorgyffwrdd a'r ailadrodd sy'n bodoli o fewn y system bresennol ac y byddai symud i dri maes wedi'u diffinio'n dda yn dileu llawer o'r dyblygu hwn – crybwyllodd tua dau o bob tri o'r sylwadau a gafwyd y byddai'r broses newydd hon *yn fwy syml / â mwy o ffocws*.

Yna, gofynnom am y farn am y datganiad canlynol: **Un agwedd o fewn y MA3 arfaethedig, sef 'arwain a gwella' nad yw'n rhan amlwg o'r MA5 presennol, sef 'arweinyddiaeth a rheolaeth', yw ffocws ar gynllunio darpariaeth a goruchwyliaeth strategol. Mae hyn wedi cael ei gynnwys i ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei hadolygu a'i chynllunio'n strategol mewn cydweithrediad â darparwyr, rhanddeiliaid a phartneriaethau perthnasol eraill i sicrhau bod cynnig darpariaeth cydlynus ar waith yn lleol ac yn rhanbarthol. Dylai'r cynnig darpariaeth hwn ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau.**

**Ffigur 4: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 92% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 3% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 28 o 64 (44%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Roedd lefel gyffredinol o gefnogaeth yn y sylwadau, ond nid oedd unrhyw themâu yn sefyll allan. Crybwyllodd lleiafrif (21%) o'r sylwadau bwysigrwydd *cydweithredu*. Soniodd lleiafrif (21%) am effeithiau cadarnhaol meithrin perthnasoedd rhwng *darparwyr addysg, dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau.*

Yna, gofynnom am y cynnig ein bod yn cynnal y 15 diwrnod gwaith o gyfnod rhybudd cyn arolygiad.

**Ffigur 5: Rydym yn cynnig ein bod yn cynnal y 15 diwrnod gwaith o gyfnod rhybudd cyn arolygiad. Mae hyn yn rhoi digon o amser i ni drefnu'r holiaduron cyn-arolygiad a chysylltu â'r darparwr am drefniadau i ymweld â dysgwyr, staff, cyflogwyr (lle bo'n berthnasol) yn ystod cyfnod y gweithgarwch arolygu, yn ogystal ag amser i ddarparwyr lanlwytho dogfennau perthnasol, ac ati. Beth yw eich barn ar y cyfnod rhybudd hwn?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 71% o'r rhai a atebodd yn cytuno bod y cyfnod rhybudd o 15 diwrnod 'Yn iawn'. O'r lleiafrif a anghytunodd (24%), roedd rhaniad weddol gyfartal, gydag 11% yn datgan bod y cynnig yn 'Rhy fyr' a 13 yn datgan ei fod yn 'Rhy hir'.

Darparodd 30 o 64 (47%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Teimlai tua hanner y rhai a ddarparodd ymatebion (16 o 30 – 53%) fod cyfnod rhybudd o 15 diwrnod yn ddigon i baratoi'r logisteg a'r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr arolygiad.

Teimlai ychydig (4 o 30 – 13%) y byddai angen amser ychwanegol ar sefydliadau mwy neu sefydliadau wedi'u lleoli ar draws nifer o safleoedd i baratoi'n ddigonol.

Canolbwyntiodd y cwestiwn nesaf ar y cynnig i barhau â’n dull presennol i beidio â chael graddau crynodol (e.e. ‘Rhagorol’, ‘Da’ neu ‘Digonol’, ‘Anfoddhaol’) yn ein hadroddiadau arolygu ar gyfer y sectorau addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, colegau arbenigol annibynnol a phrentisiaethau dysgu yn y gwaith. Bydd hyn yn cyd-fynd â’r rhan fwyaf o’r sectorau eraill rydym yn eu harolygu. Yn hytrach na chanolbwyntio ar raddau, bydd ein hadroddiadau’n cynnwys manylion ynglŷn â pha mor dda y mae darparwyr yn helpu dysgwyr i ddysgu, a gwneud yn glir beth yw’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella ym mhob un o’r meysydd arolygu.

**Ffigur 6: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i’r cynnig hwn – gyda 76% o’r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai’n cytuno’n gryf neu’n cytuno). Fe wnaeth 21% o’r rhai a atebodd anghytuno â’r cynnig (naill ai’n anghytuno’n gryf neu’n anghytuno).


Darparodd 37 o 64 (58%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Fe wnaeth tua hanner y sylwadau a gafwyd (19 o 37 – 51%) gefnogi’r cynnig ar y sail y dylai’r adroddiad gael ei ddefnyddio fel modd o *welliant parhaus* a *deialog barhaus.* Awgrymodd ymatebwyr fod canolbwyntio ar radd yn tynnu sylw rhag y wybodaeth fanwl a ddarperir yn yr adroddiadau ac nid yw’n ffordd effeithiol o wella safonau.

Teimlai lleiafrif (11 o 37 – 30%) mai gradd grynodol, i’r *person lleyg, rhieni a dysgwyr*, yw’r ffordd orau o lawer o *gymharu* sefydliadau. Ni allwn ddisgwyl i’r unigolion hyn *weithio’u ffordd trwy adroddiad* er mwyn *dod o hyd i’r pwyntiau perthnasol* i *wneud penderfyniadau*.

Yna, gofynnom am farn ar y canlynol: **Rydym yn cynnig bod arolygiadau craidd o golegau addysg bellach a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn fwy cymesur o ran maint y tîm arolygu yn gysylltiedig â chymhlethdod, maint a graddfa'r darparwr. At ei gilydd, byddai hyn yn golygu bod colegau â sawl campws, neu rai sy'n ymestyn dros ardal ddaearyddol fawr, neu mewn strwythurau grŵp, yn cael cyfnod arolygu hirach ar y safle, fel 8 neu 9 diwrnod, gyda thîm mwy o AEF ac arolygwyr cymheiriaid. Byddai colegau ag ôl-troed daearyddol llai neu sydd ag un neu ddau gampws yn unig, yn cael tîm arolygu llai ar gyfer arolygiad pum niwrnod ar y safle.**

**Ffigur 7: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn ar gyfer addysg bellach?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gydag 81% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 8% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 21 o 64 (33%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Datganodd mwyafrif o'r sylwadau (14 o 21 – 67%) fod y dull hwn *yn gwneud synnwyr, yn rhesymegol ac nid oes modd dadlau ag ef.* Cytunodd lleiafrif (5 o 21 – 24%) ag elfennau o'r dull ond dadleuont y byddai

cynnydd yn hyd arolygiadau *â'r potensial i gael effaith negyddol ar staff ac ar addysgu.*

Yna, gofynnom am farn ar y canlynol: **Ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned mawr, byddai tîm mwy o arolygwyr dros y cyfnod arolygu o bum niwrnod, ac ar gyfer partneriaethau bach, byddai maint y tîm yn llai. Rydym hefyd yn cynnig cael model arolygu teilwredig ar gyfer Addysg Oedolion Cymru, gan gydnabod ei safle unigryw fel sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno dysgu oedolion yn rhan-amser.**

**Ffigur 8: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 76% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 7% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 14 o 64 (22%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Datganodd mwyafrif o'r sylwadau (10 o 14 – 71%) fod y dull hwn *yn gwneud synnwyr ac yn synhwyrol.* Teimlai lleiafrif (3 o 14 – 21%) *y dylid arolygu Addysg Oedolion Cymru yn unol â phartneriaethau eraill dysgu oedolion.*

Yna, gofynnom am eich barn ar y cynnig ar gyfer colegau arbenigol annibynnol.

**Ffigur 9: Ar gyfer colegau arbenigol annibynnol, rydym yn bwriadu parhau â maint tebyg o ran tîm a hyd yr arolygiad ag ar hyn o bryd. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn ar gyfer colegau arbenigol annibynnol?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 63% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Ni anghytunodd unrhyw un â'r cynnig ond roedd 37% yn ansicr neu heb fod â barn.

Dim ond 7 o 64 (11%) o ymatebwyr a roddodd farn ac a ddatganodd y rheswm / rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn gefnogi'r cynnig.

Yna, gofynnom am farn ar y canlynol: **Ar gyfer colegau addysg bellach a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, rydym yn bwriadu parhau â'r trefniadau hyblyg ar gyfer gweithgarwch dilynol lle mae'r arolygiad craidd wedi nodi meysydd pwysig i'w gwella.**

**Ffigur 10: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 92% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 2% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 19 o 64 (30%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y thema fwyaf poblogaidd yn yr ymatebion oedd y byddai'r dull hwn yn gweithio'n dda ar yr amod bod *gweithgarwch dilynol cefnogol.*

Yna, gofynnom am ein dull arfaethedig ar gyfer colegau arbenigol annibynnol: **Ar gyfer colegau arbenigol annibynnol, byddwn yn mynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella fel rhan o'n proses adolygu flynyddol. Gallai hyn gynnwys ymweliad monitro i'r coleg neu adolygu tystiolaeth wedi'i darparu gan y coleg wrth y ddesg.**

**Ffigur 11: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 71% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 2% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno); fodd bynnag, roedd 27% yn ansicr neu heb fod â barn. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y nifer bach o ymatebwyr o'r sector hwn. Rydym wedi ymgysylltu ar wahân â sefydliadau sy'n cynrychioli colegau arbenigol annibynnol.

Dim ond 8 o 64 (13%) o ymatebwyr a ddarparodd farn a datgan y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Roedd 4 o'r sylwadau yn ymwneud â'r *diffyg cadernid* a allai ddeillio o'r adolygiadau wrth y ddesg.

Y cynnig nesaf oedd: **Rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio ar wella darparwyr trwy strwythuro'r adroddiad arolygu fel naratif sy'n gwerthuso'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ym mhob maes arolygu, ac yn cynnwys trosolwg cryno hefyd. Byddai'r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i fformat yr adroddiad yn cynnwys cael blychau cameo i amlygu cryfderau ac arfer arloesol neu ddiddorol a chynnwys meysydd i'w gwella fel pwyntiau bwled ar gyfer pob maes arolygu.**

**Ffigur 12: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 89% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 5% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 19 o 64 (30%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y thema allweddol, a grybwyllwyd mewn ychydig dros hanner y sylwadau (11 o 19 – 58%) oedd *bod Cynlluniau Gweithredu yn ddefnyddiol iawn a bod angen iddynt fod yn dargedig i sicrhau eu bod yn helpu i gynnig y budd mwyaf.*

Yna, gofynnom am yr Astudiaethau Achos rydym yn eu rhannu ar-lein er mwyn rhannu arfer ddiddorol ac effeithiol.

**Ffigur 13: Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn nodi arfer ddiddorol ac effeithiol a allai fod yn fuddiol i ddarparwyr eraill. Ar hyn o bryd, rydym yn rhannu'r arfer hon fel astudiaethau achos ar ein gwefan. Pa mor ddefnyddiol yw'r astudiaethau achos hyn, yn eich barn chi?**





Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod yr astudiaethau achos yn ddefnyddiol:

- *25% Eithriadol o ddefnyddiol*
- *32% Defnyddiol iawn*
- *33% Gweddol ddefnyddiol*

Ni chafwyd unrhyw sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud â defnyddio cameos: **Er mwyn gwella amseroldeb amlygu arfer effeithiol, rydym yn ystyried defnyddio cameos i amlygu arfer ddiddorol, arloesol neu effeithiol o fewn naratif yr adroddiad arolygu, fel defnyddio blwch wedi'i amlygu yn y testun, yn hytrach na gofyn am astudiaethau achos gan ddarparwyr.**

**Ffigur 14: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 91% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 6% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno)

Darparodd 15 o 64 (23%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y thema allweddol, a grybwyllwyd mewn ychydig yn llai na hanner y sylwadau (7 o 15 – 47%) oedd *y gall rhannu arfer orau yn amserol ond gynnig budd.*

Dilynom hyn i fyny trwy ofyn: **Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffordd orau y gallem rannu arfer effeithiol i gael yr effaith fwyaf?**

Darparodd 48 o 64 (75%) o ymatebwyr farn.


Y ddau ymateb mwyaf poblogaidd oedd:

- 14 o 47 (30%) o ymatebwyr – Ar-lein trwy'r Wefan, Gweminarau, HWB. Cynnwys dolenni i fideos a chameos arfer orau
- 12 o 47 (26%) o ymatebwyr – Digwyddiadau gan gynnwys cynadleddau a hyfforddiant. Wyneb yn wyneb ac ar-lein

Roedd y cynnig nesaf yn ymwneud â holiaduron llywodraethwyr: **Cyn y gweithgarwch ar y safle ar gyfer arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o**

**holiaduron cyn-arolygiad ar gyfer dysgwyr, staff, llywodraethwyr (lle bo'n berthnasol), rhieni (colegau arbenigol annibynnol yn unig) a chyflogwyr (prentisiaethau dysgu yn y gwaith yn unig). Rydym yn cynnig ein bod yn rhoi'r gorau i'r holiaduron i lywodraethwyr, ac yn hytrach yn ymgysylltu mwy â llywodraethwyr yn ystod y gweithgarwch arolygu ar y safle.**

**Ffigur 16: Beth yw eich barn am y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 78% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 11% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 23 o 64 (36%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Roedd 9 o'r 23 o sylwadau (39%) o'r farn y *byddech yn cael mwy o fewnwelediad o lawer trwy siarad â llywodraethwyr yn uniongyrchol.* Fodd bynnag, amlygodd lleiafrif (5 o 23 – 22%) *broblemau ymarferol o ran sicrhau bod llywodraethwyr ar gael ar y safle yn ystod cyfnod yr arolygiad.*

Roedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud â dysgwyr a chyrff sy'n cynrychioli dysgwyr: **Fe wnaethom beilota'r defnydd o fyfyrwyr arolygu ar ychydig o arolygiadau colegau addysg bellach. Nid oeddem o'r farn fod mynd â myfyrwyr addysg bellach fel myfyrwyr arolygu allan gyda'r tîm arolygu yn ychwanegu digon o werth at y broses arolygu. Yn hytrach, byddwn yn sicrhau yn ystod yr arolygiad ar y safle ein bod yn ymgysylltu â chyrff sy'n cynrychioli dysgwyr, cynnull grwpiau ffocws dysgwyr, a pharhau â'n harfer i siarad â chymaint o ddysgwyr ag y bo modd yn ystod yr arolygiad i gasglu eu barn.**

**Ffigur 17: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 92% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 2% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 21 o 64 (33%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Datganodd bron i hanner (10 o 21 – 48%) o'r sylwadau sut mae'n *bwysig bod y dysgwyr a'u cynrychiolwyr yn cael eu clywed yn ystod y broses.* Awgrymodd lleiafrif (8 o 21 – 38%) o sylwadau y byddai dysgwyr *o'r gwerth lleiaf* yn ystod y broses am amrywiaeth o resymau – *ansawdd y dysgwr, gwybodaeth gyfyngedig, dylanwadau (ar-lein ac eraill) neu gael eu hyfforddi i roi atebion.*


Dilynom hynny i fyny trwy ofyn am ffyrdd o gael dysgwyr i gymryd rhan yn y broses arolygu: **Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill o ran sut gallwn ni gynnwys dysgwyr yn y broses arolygu?**

Darparodd 31 o 64 (48%) o ymatebwyr farn.

Y thema fwyaf poblogaidd o lawer yn y sylwadau oedd yr angen i *siarad ac ymgysylltu â* dysgwyr, yn hytrach nag arolygon a holiaduron – a siarad ag *amrywiaeth o ddysgwyr, i gael darlun llawnach o'r hyn sy'n digwydd. Efallai na fydd unigolion neu grwpiau bach yn adlewyrchu'r corff ehangach.*

Roedd y cwestiwn nesaf am arolygwyr cymheiriaid: **Rydym yn gwerthfawrogi rôl arolygwyr cymheiriaid yn ein proses arolygu, ond yn ymwybodol o'r anhawster i ryddhau arolygwyr cymheiriaid am hyd at bythefnos ar arolygiadau craidd mewn addysg bellach. Yn ystod arolygiadau o golegau addysg bellach, rydym yn cynnig datblygu model mwy hyblyg i ofyn i ychydig o arolygwyr cymheiriaid ymuno â'r tîm arolygu ar draws y cyfnod llawn ar y safle (hyd at wyth neu naw diwrnod), a chael arolygwyr cymheiriaid eraill i ymuno â'r tîm am bum niwrnod / wythnos i leihau'r ymrwymiad sy'n ofynnol ar gyfer llawer o arolygwyr cymheiriaid.**

**Ffigur 19: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn ar gyfer colegau addysg bellach?**





Roedd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 73% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 11% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 23 o 64 (36%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Cytunodd mwyafrif o sylwadau (14 o 23 – 61%) â'r cynnig hwn, gan ddatgan, *o ystyried y pwysau amser, mae'n ymddangos bod hyn yn gyfaddawd synhwyrol*. Roedd lleiafrif (7 o 23 – 30%) o sylwadau am *yr effaith negyddol bosibl ar gysondeb.*

Y cynnig nesaf oedd: **Yn ystod arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, rydym yn bwriadu parhau â'r arfer bresennol o gael mwy o arolygwyr cymheiriaid yn aelodau o dimau arolygu partneriaethau mwy a llai o arolygwyr cymheiriaid ar arolygiadau partneriaethau llai. Yn ystod arolygiadau o golegau arbenigol annibynnol, rydym yn bwriadu parhau â'r arfer bresennol o wahodd un arolygydd cymheiriaid i ymuno â'r tîm arolygu.**

**Ffigur 20: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 65% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Ni anghytunodd unrhyw un â'r cynnig ond roedd 35% o'r rhai a atebodd yn ansicr neu heb fod â barn.

Darparodd 9 o 64 (14%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Cytunodd mwyafrif o sylwadau (7 o 9 – 78%) â'r cynnig hwn, gan ddatgan *ei fod yn gymesur ac yn briodol.*

Y cynnig nesaf oedd: **Rydym yn cynnig arolygu SSIE fel rhan o arolygiadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn annibynnol ar sut caiff SSIE ei ariannu neu p'un a yw'n cael ei chyflwyno trwy'r cyrsiau a gynhelir gan yr awdurdod lleol neu yn y coleg Addysg Bellach yn y bartneriaeth. Byddai hyn yn rhoi darlun cenedlaethol i ni o sut caiff y dysgwyr hyn eu cefnogi. Rydym hefyd yn bwriadu ychwanegu at dystiolaeth arolygu trwy gynnal adolygiad thematig cenedlaethol cyfnodol o ddarpariaeth SSIE i allu cael ffocws cryf ar ansawdd y cyflwyno a'r effaith ar safonau a chynnydd dysgwyr.**

**Ffigur 21: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 68% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 6% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 26% o'r rhai a atebodd yn ansicr neu heb fod â barn.

Darparodd 16 o 64 (25%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Teimlai dros hanner y sylwadau (9 o 16 – 56%) *y byddai adolygiad thematig o ddarpariaeth SSIE yn ddefnyddiol. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth eang o broblemau mewn addysgu SSIE yn y gymuned ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain, yn wyneb cefndir galw cynyddol am gyrsiau SSIE.*

Y cynnig nesaf oedd: **Rydym yn cynnig ymgynghori â rhanddeiliaid i lunio rhaglen o adolygiadau thematig dros y cylch arolygu nesaf i ddarparu gwerthusiadau cenedlaethol o ansawdd a safonau cymwysterau meysydd sector pwnc. Er enghraifft, pe baem yn adolygu peirianneg, gallai hyn ganolbwyntio ar ansawdd yr addysgu, y dysgu a chyflwyno cymwysterau yn y maes pwnc hwn trwy ymweliadau thematig ag ystod o ddarparwyr o golegau addysg bellach, dosbarthiadau chweched ysgolion a darparwyr dysgu yn y gwaith. Byddem yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod yr adolygiadau'n ategu'r adolygiadau sector ac yn darparu gwerthusiad cenedlaethol o ansawdd cyflwyno'r meysydd pwnc sector hyn a'u heffaith ar ddysgwyr. Rydym yn cynnig defnyddio arolygwyr cymheiriaid ag arbenigeddau pwnc i gynorthwyo AEF i gynnal yr adolygiadau hyn.**

**Ffigur 22: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 91% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Ni anghytunodd unrhyw un â'r cynnig ac roedd 9% o'r rhai a atebodd yn ansicr neu heb fod â barn.

Darparodd 18 o 64 (28%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Nid oedd unrhyw thema yn sefyll allan, ond roedd mwyafrif y sylwadau (13 o 18 – 72%) yn gadarnhaol iawn ac yn sôn am bethau fel *arfer orau, arbenigwyr, diwydiant, rhanddeiliaid, proses werthfawr.*

Yna gofynnom: **Rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd rydym yn gweithio ac mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar sut gallwn ni wneud ein gwaith yn fwy effeithiol. Defnyddiwch y blwch isod i roi adborth ar unrhyw agweddau eraill ar drefniadau arolygu Estyn.**

Darparodd 20 o 64 (31%) o ymatebwyr sylwadau.

Roedd dwy thema allweddol:

- *6 o 20 sylw (30%) – Staffio a Hyfforddiant*
    - *Bydd angen llawer iawn o arolygwyr cymheiriaid arnoch chi, yn ôl pob golwg; Sut byddwch chi'n sicrhau ansawdd neu nad yw'r un arolygwyr cymheiriaid yn cael eu gwahodd bob tro i gymryd rhan mewn arolygiadau?*
    - *Os pythefnos yw'r cyfnod rhybudd, yna mae'n rhaid i'r gofynion cyn-arolygiad fod yn rhesymol, fel nad oes effaith andwyol ar addysg dysgwyr a llwythi gwaith staff yn ystod y cyfnod hwn er mwyn casglu'r dystiolaeth cyn-arolygiad.*
    - *Hyfforddiant i reolwyr newydd ar ddisgwyliadau a beth fydd ei angen ar gyfer yr arolygiad.*
    - *Yn ystod y 1990au, es i ar nifer o gyrsiau a gafodd eu cynnal gan AEM yn Lloegr, a oedd yn amhrisiadwy. Hyd yn oed heddiw, rwy'n cofio syniadau, meddyliau, newidiadau ac ati a gyflwynwyd gan ddigwyddiad o'r fath. Yn aml, roeddent yn gyrsiau preswyl dros 4-5 diwrnod. Cwbl oleuedig ac ysbrydoledig, fe wnes i hyd yn oed weithio gyda Gweinidog Addysg Malta ar un! Efallai eich bod yn cynnal cyrsiau o'r fath, ond rwy' heb weld unrhyw gyrsiau o'r fath yn fy maes addysgu i ers y 90au; unrhyw obaith o greu rhywbeth newydd sy'n debyg. Ydw, rwy'n deall y gost, ond os ydych am safon, mae'n rhaid talu amdano, weithiau.*
    - *Cynnig cyfleoedd arolygydd cymheiriaid i fwy o staff AB.*
    - *Cynnwys staff cymorth*
- *4 o 20 sylw (20%) – Newid Cadarnhaol*
    - *Rhaid cymeradwyo'r newid diwylliant rwy wedi'i weld o ran arolygiadau yn ddiweddar. Mae'n ymddangos bod cydweithredu a phartneriaid wedi disodli gwrthdaro a meddwl caeedig, i'r gwrthwyneb llwyr i Loegr. Credaf fod hyn yn fwy ffafriol o lawer ar gyfer codi safonau. Hoffem weld y newid mewn diwylliant yn cael ei ddatblygu ymhellach.*
    - *Teimlaf y bydd y trefniadau newydd sy'n cael eu hystyried o Fedi 24 ymlaen yn ysgogi newid mwy cadarnhaol i'r ffordd y mae arolygiadau'n cael eu cynnal, gan y bydd yn sicrhau bod y ffocws wedi'i gyfeirio'n fwy at y meysydd allweddol ac yn caniatáu amgylchedd/dull mwy cefnogol ar gyfer y darparwyr addysg sydd angen hynny.*
    - *Mae ymdrechu i wella proses yn dasg deilwng bob amser.*
    - *Mae'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y dogfen hon yn cynorthwyo. Mae angen cael cyfleoedd i ymarferwyr ystafell ddosbarth gymryd rhan.*

## 4.2 Effeithiau'r cynigion

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**

1. Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
2. Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Darparodd 27 o 64 (42%) o'r ymatebwyr sylwadau.

Roedd pedair thema a gafodd eu crybwyll fwyaf, bob un ohonynt yn cael eu crybwyll 4 gwaith (15% o'r sylwadau yr un):

- *Mae angen bod staff (medrus) sy'n siarad Cymraeg ar gael er mwyn i hyn weithio.*
- *Mae angen i staff gael y cyfle i weithio yn Gymraeg, lle y bo'n bosibl – gan gynnwys ymweliadau arolygu.*
- *Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn amrywio ar draws Cymru felly mae'n dibynnu ym mha ran o Gymru ydych chi o ran sut mae hyn yn effeithio ar y Gymraeg.*
- *Nid ydym yn gweld unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.*

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**:

Darparodd 17 o 64 (27%) o ymatebwyr sylwadau.

Roedd dwy thema a gafodd eu crybwyll amlaf:

- *Effaith gadarnhaol (6 o 17 – 35%), gan gynnwys:*
    - *Mae amgylchedd dysgu lle y mae strategaethau addysgu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael eu gweithredu, yn sicrhau bod platfform dysgu cyfartal a rhaid bod tystiolaeth o hyd yn ystod sesiwn wedi'i harsylwi.*
    - *Mae cael fframwaith sy'n hyrwyddo gwelliannau, yn hytrach na barnau, yn gwneud y broses yn decach.*
    - *Meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chydweithio i helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal.*
- *Dim newid (5 o 17 – 29%), gan gynnwys:*
    - *Nid yw'r newidiadau eu hunain yn cael effeithiau cadarnhaol na negyddol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol yn dibynnu ar sut mae arolygiadau'n cael eu cynnal. Mae lleihau cyfraniadau myfyrwyr yn risg bosibl. Mae ystyried pa mor dda y mae'r arolygiaeth yn adlewyrchu uchelgais ESTYN o ran amrywiaeth yn hanfodol, hefyd.*

## 5. Y camau nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer lleoliadau ôl-16 o 2024 ymlaen.